

# Crynodeb hysbysiad preifatrwydd



**SWANSEA**  
BUILDING SOCIETY

Sefydlwyd 1923



Protected

# Crynodeb hysbysiad preifatrwydd

Bu i'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol [The General Data Protection Regulation (GDPR)] gymryd lle Deddf Diogelu Data'r DU 1998 [Data Protection Act 1998 (DPA)] ar 25 Mai 2018. Mae'n ymestyn hawliau unigolion i reoli sut y cesglir ac y prosesir eu data personol, ac mae'n rhoi ystod newydd o ymrwymadau ar sefydliadau i fod yn fwy atebol dros ddiogelu data.

Mae'r Gymdeithas yn ymrwymedig i ddiogelu eich data personol ac yng ngoleuni deddfwriaeth newydd, dyma ein polisi preifatrwydd diweddaraf. Ceir copi llawn ar ein gwefan hefyd neu drwy ofyn amdano.

Mae'r hysbysiad cryno hwn yn esbonio sut mae Swansea Building Society (ni) o 11/12 Stryd Cradock, Abertawe, SA1 3EW, yn casglu, storio a defnyddio eich gwybodaeth personol. Gellir cael yr hysbysiad hwn yn llawn ar <http://www.swansea-bs.co.uk/about-swansea-building-society/privacy-information>.

Am ragor o wybodaeth am yr hysbysiad hwn, neu os dymunwch ymarfer unrhyw rai o'ch hawliau a grybwyllir ynddo, cysylltwch os gwelwch yn dda â'n Swyddog Diogelu Data, naill ai drwy ysgrifennu atom yn 11/12 Stryd Cradock, Abertawe, SA1 3EW neu drwy e-bost ar [dpo@swansea-bs.co.uk](mailto:dpo@swansea-bs.co.uk).

## Pa wybodaeth personol fyddwn ni'n ei gasglu?

Bydd yr wybodaeth personol a gasglwn amdanoch yn dibynnu ar y cynnyrch neu'r gwasanaethau y byddwch chi'n ymgeisio amdanynt, neu a ddarperir gennym ar eich cyfer. Fel arfer byddwn ni'n casglu'r wybodaeth ganlyno:

- Eich enw, manylion cyswllt a chyfeiriad;
- Eich dyddiad geni a / neu oedran a chenedligrwydd;
- Cofnodion ynghylch sut rydych chi wedi cysylltu â ni;
- Mewn rhai achosion, gwybodaeth am eich iechyd os ydych chi'n gwsmer bregus.

Os byddwch chi'n gwneud cais am fôrtais neu gynnrych cynilo, fe allwn ni hefyd gasglu gwybodaeth am:

- Eich manylion ariannol, gan gynnwys manylion am fenthyciadau sydd gennyh eisoes;
- Eich hanes credyd, y byddwn yn ei gael gan Asiantaethau Cyfeirio Credyd;
- Eich statws cyflogaeth, tai, preswyllo a / neu ddinasyddiaeth;
- Eich safle treth;
- Eich statws priodasol, amgylchiadau teuluo, cymdeithasol neu arferion bywyd, os ydyn nhw'n berthnasol;
- Unrhyw un sy'n gweithredu fel gwarantydd; ac
- Unrhyw berson heblaw am ddeiliad y cyfrif sy'n tynnu arian allan o gyfrif.

## Pam fod angen i ni gasglu eich gwybodaeth personol?

Rydym ni'n defnyddio eich gwybodaeth personol i:

- Gadarnhau pwy ydych chi pan fyddwch chi'n agor cyfrif neu'n cysylltu â ni;
- Ystyried ac asesu eich cais am wasanaeth, cyfrif neu rôl gyda ni;
- Rheoli a gweinyddu eich cyfrif(on) gyda ni;
- Adfer dyledion sy'n ddyledus i ni ac atal troseddau ariannol;
- Rhoi gwybodaeth i chi y byddwch chi'n gofyn i ni amdano a'ch hysbysu am newidiadau i'n gwasanaethau;
- Darparu gwybodaeth i chi am nwyddau a gwasanaethau eraill a gynigir gennym a fyddai, yn ein tyb ni, o ddiddordeb i chi; a
- Gwella ein gwefan, sicrhau fod ei chynnwys yn cael ei chyflwyno yn y dull mwyaf effeithiol ar eich cyfer chi ac i gadw ein gwefan yn ddiogel.

Gellir newid eich gwybodaeth personol yn ddada ystadegol neu gasgledig na ellir mo'i ddefnyddio i'ch adnabod chi, a all gael ei ddefnyddio i gynhyrchu adroddiadau ac ymchwil ystadegol.

## O ble fyddwn ni'n casglu eich gwybodaeth personol?

Byddwn ni fel arfer yn casglu eich gwybodaeth personol yn uniongyrchol oddi wrthyh chi (er enghraifft pan fyddwch chi'n llenwi ffurflen gais neu'n cysylltu â ni). Os na fyddwch chi'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom, efallai na fydd modd i ni ddarparu'r cynnyrch a'r gwasanaethau y gofynnwch amdanynt na phrosesu eich cais.

Byddwn hefyd yn cael eich gwybodaeth personol o ffynonellau eraill, gan gynnwys Asiantaethau Cyfeirio Credyd, eich cyflogwr, landlord, benthycwyr eraill, Cyllid a Thollau, Adran Gwaith a Phensiynau, cyfeiriadau a gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, asiantwyr adfer a / neu olrhain dyled, sefydliadau eraill ar gyfer atal a chanfod trosedd, yr heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith. Os byddwch chi wedi cael eich cyflwyno i ni gan frocer neu ganolwr arall, byddwn ni'n cael eich gwybodaeth personol oddi

wrthyn nhw. Os byddwch chi'n gwneud cais ar y cyd neu'n ymgeisio am forgais gyda gwarantwr, byddwn ni'n casglu gwybodaeth bersonol am yr unigolion hynny.

### **Cadw mewn cyswllt â chi**

Fe allwn ni ddefnyddio eich manylion cyswllt i roi gwybodaeth bwysig i chi am eich cyfrifon. Yn ogystal, fe allwn ddefnyddio eich manylion cyswllt i gysylltu â chi i roi gwybodaeth farchnata am ein cynnyrch a'n gwasanaethau eraill a allai fod o ddiddordeb i chi. Ar hyn o bryd, dim ond drwy'r post y gwnawn hyn. Bydd gennych gyfle i optio allan o dderbyn gwybodaeth farchnata o'r fath pan fyddwch chi'n rhoi eich manylion i ni am y tro cyntaf, a gallwch newid eich meddwl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data.

Fe allwn ni rannu data personol gyda thrydydd parti i bwrpasau olrhain a gwirio data. Fe allwn hefyd gael data personol oddi wrth drydydd parti er mwyn dod o hyd i unigolion.

### **Beth yw ein rhesymau cyfreithiol dros gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol?**

Mae deddfau diogelu data'n mynnu ein bod ni'n esbonio ein rhesymau cyfreithiol dros brosesu eich data personol. Dyma'r amodau cyfreithiol sy'n berthnasol i ni:

- Pan fydd hi'n ofynnol i ni gyflawni ein cytundeb â chi (e.e. ar gyfer morgais neu gynnyrch cynilo) neu ar gyfer cymryd camau cyn mynd i gytundeb;
- Pan fydd hi'n angenrheidiol i ni gydymffurfio â'n hymrwymiadau cyfreithiol;
- Pan fydd hi'n angenrheidiol ar gyfer ein diddordebau cyfreithlon ein hunain neu sefydliadau eraill;
- Gyda'ch cydsyniad chi; a
- Phan fo'n ofynnol ar gyfer diddordeb cyhoeddus sylweddol.

### **Ydy eich gwybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r DU?**

Mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei storio yn y DU ac ni fyddwn ni'n symud eich gwybodaeth bersonol allan o'r DU fel rheol. Os bydd problem yn codi ar eich cyfrif, efallai y bydd angen i ni ganiatáu i'n his-gontractiwr, a leolir y tu allan i'r DU (yn India ar hyn o bryd) gael mynediad i'ch gwybodaeth. Pan fyddwn ni'n mynd i gytundeb gyda darparwyr o'r fath, yna os yw eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) mae'n cael ei gwarchod gan reoliadau gwarchod data Ewropeaidd. Mae gan rai gwledydd y tu allan i'r EEA safonau gwarchod digonol ar gyfer gwybodaeth bersonol dan ddeddfau sy'n berthnasol i ni. Rydym wedi gosod mesurau ar waith i sicrhau fod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei gwarchod os oes angen cael mynediad iddi o'r tu allan i'r EEA.

### **Asiantaethau cyfeirio credyd**

Er mwyn i ni brosesu eich cais, byddwn ni'n gwneud gwiriadau hunaniaeth arnoch chi gydag un neu ragor o asiantaethau gwirio credyd (Credit Reference Agencies – CRAs). I wneud hyn, byddwn ni'n rhoi eich enw a gwybodaeth arall i'ch adnabod i'r CRAs a byddan nhw'n rhoi gwybodaeth i ni, gan gynnwys gwybodaeth am eich sefyllfa ariannol a'ch hanes ariannol. Bydd CRAs yn cyflenwi i ni wybodaeth gyhoeddus, gan gynnwys y rhestr etholwyr) y byddwn ni'n ei defnyddio i atal gweithgarwch troseddol, twyll a gwyngalchu arian. Byddwn ni'n parhau i gyfnewid gwybodaeth amdanoch chi gyda'r CRAs tra bo gennych berthynas â ni. Byddwn ni hefyd yn rhoi gwybod i'r CRAs am eich cyfrifon a setlwyd. Os byddwch chi'n benthycu arian ac yn methu ag ad-dalu'n llawn neu mewn pryd, bydd CRAs yn cofnodi'r ddyled dros ben. Gellir rhoi'r wybodaeth hon i sefydliadau eraill gan CRAs. Pan fydd CRAs yn derbyn chwiliad gennym ni, byddan nhw'n rhoi ôl troed chwilio ar eich ffeil gredyd y gall benthycwyr eraill ei weld. Gellir cael mwy o wybodaeth am CRAs ar <https://www.equifax.co.uk/crain>.

### **Am faint o amser fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol?**

Ar y cyfan, byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth gydol yr amser y bydd gennych chi gyfrif gyda ni, ac am gyfnod o chwe blynedd ar ôl i'ch cyfrif gael ei gau. O dan rai amgylchiadau, gallwn ni gadw eich gwybodaeth am mwy na hyn, er enghraifft pan fydd yn ofynnol i ni wneud hynny gan y gyfraith, neu ble bydd angen yr wybodaeth arnom i amddiffyn a gweithredu ein hawliau cyfreithiol. Fe allwn hefyd gadw hanes trafodion i bwrpasau ymchwil ystadegol ac adrodd yn ôl.

## Eich hawliau

O dan ddeddfau diogelu data, mae gennych chi hawl i ofyn i ni i:

- Gywiro unrhyw wybodaeth bersonol sy'n anghywir neu anghyflawn yn eich barn chi;
- Stopio neu gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol am rai rhesymau;
- Dileu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau;
- Rhoi copïau o'ch gwybodaeth bersonol i chi;
- Rhoi'r wybodaeth i chi mewn ffurf symudol.

Ni fydd pob un o'r hawliau hyn yn berthnasol o dan bob amgylchiad. Cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data os gwelwch yn dda os dymunwch ymarfer unrhyw un o'r hawliau hyn. Os ydych chi'n anfonlon â'r modd yr ydym ni'n trin eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r Swyddog Diogelu Data yn y lle cyntaf a gwnawn ein gorau i ddatrys eich cwyn. Mae gennych hawl i gwyno hefyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr ar gyfer cyfreithiau diogelu data: <https://ico.org.uk/>

**SWANSEA**  
BUILDING SOCIETY

Sefydlwyd 1923

[www.swansea-bs.co.uk](http://www.swansea-bs.co.uk)

SBS (CSPN 1222)

Awdurdodir Swansea Building Society gan yr Awdurdod Rheoleiddio Ariannol a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Ariannol. Rhif Cofrestr Gwasanaethau Ariannol: 206066

### Prif Swyddfa

11-12 Stryd Cradock, Abertawe SA1 3EW  
01792 739100 | [swansea@swansea-bs.co.uk](mailto:swansea@swansea-bs.co.uk)

### Caerfyrddin

13-14 Heol Awst, Caerfyrddin SA3 3AQ  
01267 611950 | [carmarthen@swansea-bs.co.uk](mailto:carmarthen@swansea-bs.co.uk)

### Y Bont-faen

75 Stryd Fawr, Y Bont-faen, CF71 7AF  
01446 506000 | [cowbridge@swansea-bs.co.uk](mailto:cowbridge@swansea-bs.co.uk)

### Y Mwmbwls

496 Heol Mwmbwls, Abertawe SA3 4BX  
01792 739200 | [mumbles@swansea-bs.co.uk](mailto:mumbles@swansea-bs.co.uk)

### Abertawe

1-4 Stryd Portland, Abertawe, SA1 3DH  
01792 739100 | [swansea@swansea-bs.co.uk](mailto:swansea@swansea-bs.co.uk)